Cofnodion o Gyngor Cymuned Llanbedr 6.2.25

Presennol – Cyngor llawn, gyda cyfieuthydd yn bresennol

Datgan Buddiant – dim

Gair gan y Cadeirydd – croesawu pawb I'r cyfarfod ac yn falch o weld cyfarfod llawn.

Ceisiadau Cynllunio – Parthed Capel Gwynfryn. Dim yn digwydd yma, y scaffoldiau yn rhwystr I ddod a cerrig beddau yn ol I'r fynwent. Y Clerc wedi holi Aled Lloyd , Parc Cenedlaethol – yn ceisio datrys y problemau ac am son e fo'r perchennog parthed creu y fynedfa , er hwyluso petha.

Nododd AH bod y perchennog yn ceisio cael diddymu yr amod 106 (gorfod felly talu £30000, Community Charge). Tebyg mae hyn sydd yn peru'r oedi yn y datblygiad.

Derbyniwyd y cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir.

Cyllid – pob Cynghorydd wedi derbyn adroddiad cyllid drwy e bost.

Arian yn y Banc 29.1.25 £24373.26

Wedi talu £20 Neuadd

£500 Ysgol Feithrin

£5.00 Costa Banc

Wedi derbyn £1072 arian claddu. Ond heb gael anfoneb am gosta agor bed hyd yma.

Yna mis Chwefror talwyd y canlynol

£40 Delyth

£276 Robinsons (£230 a £46 Taw) hawl tramwyuo

(Eglurhad yr uchod am y flwyddyn 2024. Talwyd 2 swm yn 2022 (un yn Mis Mai ac un mis Medi 2022 – felly dim taliad 2023) Bydd taliad eto yn cael ei wneud 2025 Mis Ebrill I fod!

Neuadd £10.00

Mae'n ymddangos y bydd arian sylweddol yn cael ei gario trosodd ym Mis Mawrth.

COFIO bod angen talu :-

£700 I'r Archilwyr Cyfrifon - ond dal heb gael cadarnhad bod hyn yn iawn.

Angen talu mis Mawrth I Morfudd Cyfanswm o £422.33 microsoft a zoom.

Gellid yn hawdd dalu rhodd o £150 I Huchenfeld - trafod eto.

Cais Eisteddfod Ardudwy – gellir rhoi arian iddynt hwy hefyd.

Angen talu am y wal derfyn -- £5500

Talu G.L.Jones Gwaith cae chwarae plant £2000 (amcanbris)

Archwiliad cae chwarae ac unrhyw waith ychwanegol.

Arian ar gyfer Gwaith ail leoli y meinciau o bosib a thrwshio un fainc.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

1. Y Fynwent – oherwydd tywydd garw bu raid gohirio y dyddiad I glirio eiddew yn y fynwent. Nododd AH mae cyfrifoldeb teulu yw gofalu am y beddrod.
   Bod tim tacluso wedi bod yn clirio ffordd y fynwent, palmant at yr Ysgol a hefyd o amgylch y toiledau. Altrad ofnadwy. Y Clerc eisioes wedi anfon I ddiolch iddynt.
   Nododd Gwynfor Owen – tybed a fyddai y tim tacluso yn gallu clirio yr eiddew?
   Mainc er cof yn y fynwent Newydd yn fler iawn. Nododd y Cadeirydd y byddai yn cael gair gyda'r teulu.
   Ble I osod y fainc dderw oedd ger y Victoria – rhwng y 2 fynwent?
   Angen edrych ar hyn.
   Nododd ETH bod ganddo yntau fainc angen ei thrwshio hefyd – un oedd ger Capel Moreia. JE a ETH I drefnu hyn. Ei lleoli falle ger Cambrian Clearance?

2.Cae Chwarae – dim adroddiad pellach

3.Llwybrau a Gwaith tendro – hwn yn agored tan ddiwedd Mawrth. Hysbyseb yn Llais Ardudwy ac ar y we. Wedi cael 2 yn dangos diddordeb hyd yma.

Nododd RW bod manylion un fydda yn gallu tendro ar dudalen face book cymunedol.

4.Tyllau yn y ffordd – heb gael ymateb parthed hyn. Nododd ETH bod Rhiw Garth Goch wedi cael ei wneud. Cwm Bychan a Cwm Nantcol heb eu gwneud. Rhai mannau ger Bryn Deiliog wedi eu gwneud – cyfrifoldeb Bwrdd Dwr yw rhai o'r rhain.

Holodd GO oedd y tyllau sydd wedi eu llenwi yn waith boddhaol, neu gwaith dros dro yw?

Angen anfon rhestr ato o'r holl gwynion,

5.Tim tacluso – Gwaith canmoladwy iawn.

6)CCTV – hwn dal ar yr agenda. Pasiwyd I ofyn I R.J.Electrics ac Elliw Williams PCO ddod I gyfarfod nesaf y Cyngor I drafod yr opsiynnau . Cyfarfod am 7.00 o'r gloch 6.3.25

7)Cas Deffibiwlator – hwn wedi ei osod, Gyda diolch I Gwmni Chwarel Minffordd a JE.

Angen llun ar gyfer Llais Ardudwy mis Mawrth. (Cael JTW a JE yn y llun).

8)Maes Parcio Bryn Hyfryd –

Wedi derbyn ymateb gan Rhydian Roberts parthed hyn. Maent wedi ymgymerud gyda'r Gwaith o wella y draeniau yn y fynedfa I Goed Hafod y Bryn. Wedi agor draen Newydd ychwanegol I gario y dwr ymlaen am y goedwig. Y Gwaith ar fin cael ei gwblhau ac yn y tywydd gwlyb diweddar roedd yn galonogol gweld bod y dwr sy'n codi'n achlysurol yn y fynedfa yn ffendio'I ffordd I'r draen a dim yn codi ac yn llifo I'r ffordd. Ymwybodol bod JTW wedi ymweld a'r gweithwyr yno.

Mae Rhydian yn awgrymu y gellir gwneud Gwaith ychwanegol ar y draeniau Cyngor Gwynedd.

Nododd JTW bod dwr a llanastr yn llifo I lawr y ffordd tuag at Bryn Deiliog. Perygl o rewi ac achosi damweiniau.

Pasiwyd bod GO a JTW yn ymweld a'r safle cyn I'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd.

Nododd JTW bod y waliau cerrig naill ochr I'r ffordd hefyd yn chwalu.

9.Dyddiadau Weltag yn Llanbedr. 2 ddyddiad

Ymgysylltu a'r cyhoedd Cam 2 WelTag
19.3.25 sesiwn galw heibio yn ystod y dydd 10am hyd 4pm
25.3.25 sesiwn galw heibio fin nos 4pm – 7 pm
Yn Neuadd Bentref Llanbedr.

Nododd RW ei fod wedi ceisio cael yr adroddiad Weltag 1 a Weltag 2. Ond cafwyd cadarnhad gan Gerwyn Jones (dros text gyda GO ar y noson) nad oedd rhain yn barod hyd yma.

Byddai yn dda cael copi o'r rhain cyn y dyddiadau agored.

10) Adroddiadau Cynghorwyr Sir

Gwynfor Owen – wedi bod mewn cyfarfod gyda Arweinydd Cyngor Gwynedd

Prif Fater yn codi oedd toriadau yn y gyllideb a codi treth Cyngor 8 a hanner % oherwydd fformiwla o boblogaeth hyn yn Ngwynedd a llai o bobl ifanc felly yn deerbyn canran llai gan y

Llywodraeth. 6 miliwn o gostau ar gyfer Insiwrance Gwladol yn awr, wedi'r gyllideb genedlaethol diweddar. Un Newydd calonogol yw nad oes son hyd yma am roi mwy o bwyslais a chyfrifoldebau ar y Cynghorau Cymuned.

Annwen Hughes –

Nododd ei bod wedi medru cael gritter I fyny ffordd Cwm Bychan dechrau Ionawr.

Bod Paula a Ken wedi bod yn tacluso ffens tir Victoria hyd at y toiledau. Mae'n fwriad ganddynt fynd ymlaen hyd at Bont Glanffrwd.

AH ei hun wedi bod yn torri drain ger yr Ysgol.

Coed ger Hafan Artro – coed yn perthyn I Joseff Gruffydd. Bod hi wedi son wrth Nedw ei frawd am hyn. Nododd y Clerc ei bod hitha wedi cysylltu a Nedw parthed hyn.

Bod car yn cael ei adael ym Mhentref Gwynfryn . Angen ei symud. Y Clerc I gysylltu eto gyda PCO parthed hyn.

Y ffordd wedi cael ei sgubo (dail etc)

Nododd ETH bod angen sgubo bob man rwan gan bod y dail y n croni ar o chr y ffyrdd ac yn llenwi'r draeniau.

Materion Eraill

1. Pasiwyd I drefnu'r fforwm Cynghorau 19 Mawrth. Am 7.30 yr hwyr
2. KT – lluniau o Forglawdd Llandanwg – angen cyfeirio at Cyfoeth Naturiol.
3. E Bost gan Mr G.Price yn cwyno am sefyllfa coed yn gwyro I'r ffordd – fel a ganlyn
   a)Ffordd ger Hafan Artro – Y Clerc a AH wedi cyfeirio y mater yma at y perchnogion tir.
   b) Ger y Rhos
   c) Gyferbyn a'r Ysgol – AH wedi gwneud y Gwaith ger yr Ysgol.
   d) Pont Glanffrwd
   Bydd y Clerc yn cyfeirio y materion hyn at Gyngor Gwynedd er sylw.

Tud 4.

4. Nododd KT bod hi bron yn 5 mlynedd ers y covid pandemic. Nid o edd y Cyngor yn awyddus I hysbysu hyn, dim ond I ategu ein diolch I bawb a ddaru helpu ymhob ffordd ar adeg anodd iawn yn ein hanes.
5. LV yn nodi bod lot o sbwriel ar hyd ochr y ffordd.